



Dwy iaith Dau Ddewis?

Cysyniad o ddewis iaith ym maes
gwaith a gofal cymdeithasol

Elaine Davies

Rhagair

Un o feini prawf Cymru fodern ddatganoledig yw bod Cymry Cymraeg eu hiaith yn gallu byw eu bywydau yn yr iaith honno yn naturiol a di-drafferth.

Trwy **'Cymru'n Un'** ac **'Iaith Pawb'** gosodir cynsail newydd i bwysigrwydd digamsyniol dewis iaith mewn gwasanaethau cyhoeddus megis iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid felly cael trafodaethau cyfredol ynglŷn â pham fod dewis iaith a sensitifrwydd at ddewis iaith yn allweddol i ddarparu gwasanaethau ystyrlon ac o ansawdd yn y Gymru ddwyieithog.

Yn ei strategaeth 10 mlynedd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru **'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol'**, mynegodd Llywodraeth Cynulliad Cymru; *'ei bod hi'n bwysig bod egwyddorion ansawdd, ymatebolrwydd a chydaddoldeb yn tyfu i fod yn nodweddion craidd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o ddiwylliant a bywyd Cymru. Rhaid i hyn gael ei adlewyrchu wrth ddatblygu strategaethau gofal cymdeithasol lleol effeithiol ynghyd ag wrth gynllunio, darparu a gwella gwasanaethau i unigolion sydd â'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt.'*

Mae'r gyfrol yma yn edrych o'r newydd ac o safbwynt gwahanol ar yr hyn mae dwyieithrwydd yn ei olygu. Ei fwriad sylfaenol yw sicrhau dealltwriaeth aeddfed a thrylwyr i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol a'u haseswyr o ddwyieithrwydd yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi'r myfyrwyr hyn i gyflawni yn ystyriol y gofyniad i adlewyrchu iaith a diwylliant Cymru ymhob elfen o'u gwaith tra'n dilyn eu cwrs gradd.

Mae'r llyfryn fodd bynnag yn gwneud mwy na hynny ac fe fydd yn sicr yn ddefnyddiol i lawer mwy o weithwyr yn y maes na myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn unig. Mae'n cynnig disgrifiad a dadansoddiad o ddwyieithrwydd o safbwynt theorïau gwahanol, a'i roi mewn cyd-destun byd-eang sy'n gyfrwng i bawb, dwyieithiog ac uniaith, ddeall dwyieithrwydd a'i oblygiadau ar gyfer gwaith o fewn y maes gofal.

Rhian Huws Williams
Prif Weithredwr

Cynnwys

Iaith a'r Unigolyn	5
Dwyieithrwydd: Y Cysylltiadau â Gwaith Cymdeithasol	14
Iaith a Chymdeithas	22
Cyfeiriadau a Ffynonellau	31
Atodiad.....	34

Dwy iaith: Dau Ddewis?

Mae'r cyhoeddiad yma yn bennaf ar gyfer Athrawon Ymarfer a myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol, er bod potensial i'w gynnwys fod yn ehangach ei apêl a'i ddiddordeb na hynny. Bwriedir iddo i fod o gymorth wrth geisio deall a dadansoddi'r cysyniad o ddewis iaith ym maes gwaith a gofal cymdeithasol.

Yn aml bydd myfyrwyr a gweithwyr proffesiynol yn ymwybodol o'r angen i gynnig dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaeth a chynhalwyr o ran ymarfer da. Fodd bynnag nid yndynt bob amser yn gallu deall a dadansoddi'r dewis hwnnw. Mae hyn maes o law yn effeithio ar ymarfer a darparu gwasanaethau.

Er yr ymddengys bod unigolion dwyieithog mewn sefyllfa o ddewis mewn perthynas â pha iaith i'w defnyddio, dylid ystyried y ffaith, fodd bynnag nad yw'r dewis hwnnw o reidrwydd yn un rhydd nac ychwaith yn un y bydd yr unigolyn yn ymwybodol ohono bob amser, yn enwedig pan ystyrir un o'r ieithoedd rheiny fel iaith leiafrifol. Mae angen cydnabod bod dewis iaith i unigolion dwyieithog, beth bynnag fo'r ieithoedd rheiny, yn broses gymhleth iawn, sydd â ffactorau dylanwadol ehangach iddo na'r rhai gwleidyddol neu gyfreithiol (Deddf yr Iaith Gymraeg 1993) neu emosynol (cariad at yr iaith), ac o bosib sydd ymwneud mwy â'r themâu o gyfathrebu ac ymddygiad dynol.

Mae'r cyhoeddiad yn edrych ar ddwyieithrwydd mewn cyd-destun byd-eang, gyda thystiolaeth anecdotaidd o brofiad mewn perthynas â dewis iaith a phatrymau defnydd iaith fydd o ddefnydd i ni wrth ystyried yr iaith Gymraeg.

Cydnabyddiaeth

Hoffai Cyngor Gofal Cymru ddiolch i Ganolfan Dysgu Ymarfer Gogledd Cymru a'r Rheolwr, Gwenan Prysor, am y gwaith caled o ddatblygu'r llyfryn hwn er mwyn darparu adnodd gwerthfawr ar gyfer myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol ac Athrawon Ymarfer.

Bu iddynt gomisiynu Cwmni Iaith i ymgymryd â'r gwaith o ystyried beth yw dwyieithrwydd. Ffrwyth y gwaith hwnnw gan Elaine Davies yw'r llyfryn buddiol a diddorol yma sy'n dandansoddi'r cysyniad o ddewis iaith.

Gwerthfawrogwn bob cydweithrediad i sicrhau cyhoeddi'r gwaith a'i hyrwyddo ledled Cymru.

Iaith a'r Unigolyn

Diffinio dwyieithrwydd

Cyflwyniad

Does yna'r un diffiniad syml o ddwyieithrwydd. Dyma rai pethau y mae'n rhaid eu hystyried:

- i) Mae gwahaniaeth rhwng *medru* iaith a *defnyddio'r* iaith honno. Hwyrach y bydd person yn medru siarad dwy iaith ond mewn gwirionedd ond yn defnyddio un ohonyn nhw. Neu, efallai y bydd unigolyn yn siarad dwy iaith ond yn fwy rhugl mewn un iaith na'r llall. Dyma'r gwahaniaeth rhwng medr neu hyfedredd mewn dwy iaith ar y naill law, a defnydd go iawn ar y llaw arall.
- ii) Gall medr yr unigolyn amrywio yn dibynnu ar ba un o'r pedair sgil iaith y mae'n ei defnyddio – siarad, gwranddo, darllen, neu ysgrifennu. Er enghraifft, gall person ddefnyddio un iaith ar gyfer sgwrsio a bod yn rhugl yn yr iaith honno gan ddewis symud i'r iaith arall ar gyfer darllen ac ysgrifennu. Bydd person arall wedyn yn deall ail iaith wrth wrando arni ac wrth ei darllen ond bydd yn llai abl i'w siarad â'i hysgrifennu'n rhugl. Dywedir bod gan y math hwnnw o berson allu goddefol neu allu i dderbyn ail iaith.
- iii) Prin yw'r bobl ddwyieithog sydd yr un mor fedrus mewn dwy iaith. Mae un iaith yn tueddu i fod yn gryfach na'r llall. Dyma'r iaith flaenaf (*dominant*) ond nid honno o angenrheidrwydd yw iaith 'gyntaf' yr unigolyn chwaith.
- iv) Gall medr mewn iaith amrywio dros gyfnod o amser yn dibynnu ar newid mewn amgylchiadau. Er enghraifft, gall person ddysgu iaith leiafrifol yn blentyn yn y cartref gan ddysgu iaith arall, fwyafrifol yn yr ysgol. Gydag amser, efallai mai'r ail iaith fydd yr un gryfaf – honno fydd yr iaith flaenaf.



- v) Mae syniad y continwwm yn ddefnyddiol. Mae pobl ddwyieithog yn eu cael eu hunain ar fannau gwahanol ar y continwwm. Ar un pen ohono bydd y bobl brin hynny sydd yr un mor gyfforddus yn y naill iaith a'r llall ac ar y pen arall, pobl sy'n sigledig ac yn ddihyder, yn ddysgwyr cynnar efallai. Fel y soniwyd uchod, i'r mwyafrif, bydd yr union safle ar y continwwm hefyd yn amrywio, yn dibynnu os ydyn nhw'n siarad, yn gwrando, yn darllen, neu'n ysgrifennu.

[Yn seiliedig ar Baker a Jones, 1998: 2-3]

Ffyrdd Gwahanol o Feddwl am Ddwyieithrwydd – Dau Hanner neu Un Cyfan?

Mae Francois Grosjean (1985; 1994) wedi ysgrifennu'n helaeth am hynny ac mae'n gwahaniaethu rhwng:

- i) y ffordd *ffracsiynol* o feddwl am ddwyieithrwydd, hynny yw, pan fo'r person dwyieithog yn cael ei weld fel dau berson uniaith wedi eu dwyn ynghyd yn un, a'r
- ii) ffordd holistig o feddwl am ddwyieithrwydd, hynny yw, pan fo'r person dwyieithog yn cael ei weld nid fel cyfuniad o ddau berson uniaith ond yn hytrach fel endid ieithyddol unigryw a chyfansawdd.

Y ffordd ffracsiynol neu uniaith o feddwl am ddwyieithrwydd – Yn gysylltiedig â'r theori yma mae'r gred bod y person dwyieithog yn prosesu a defnyddio iaith yn yr un ffordd â'r siaradwr uniaith. Dyma enghraifft gan Baker a Jones:

"...if English is a bilingual's second language, scores on an English reading or English attainment test will normally be compared against monolingual averages and norms. A bilingual's English language competence is measured against that of a native monolingual English speaker... One consequence is that the definition of a bilingual will be restricted to those who are equally fluent in their two languages, with proficiency comparable to a monolingual. If that competence or proficiency does not exist in

both languages, especially in the majority language, then bilinguals may be denigrated and classed as inferior."

[Baker a Jones, 1998: 9]

Ar raddfa fyd-eang, mae bod yn ddwyieithog yn rhywbeth cyffredin a normal tu hwnt, *"a normal and unremarkable necessity for the majority of the world today"*, (Edwards, 1994: p.1). Mae rhyw ddwy ran o dair o boblogaeth y byd yn siarad o leiaf dwy iaith yn eu bywydau bob dydd. Serch hynny, yn ôl y meddylfryd yma, unieithrwydd yw'r norm. Mae hynny'n arbennig o wir yn achos gwledydd fel yr Unol Daleithiau a Lloegr lle mae tuedd i anwybyddu'r ffaith bod dwyieithrwydd yn eithriadol o gyffredin ledled y byd a bod pobl ddwyieithog yn aml iawn yn defnyddio'r ddwy iaith mewn cyd-destunau gwahanol, gyda phobl wahanol ac at ddibenion gwahanol.

Yn draddodiadol, mae'r meddylfryd yma wedi cyfrannu at greu model o ddwyieithrwydd ar sail diffyg (*deficit model*) gyda dwy iaith yn cael eu gweld yn destun dryswch ac arafwch ieithyddol. Mae'n dilyn wedyn y gall pobl ddwyieithog gymharu eu hunain â phobl uniaith a themlo'n ddiffygiol mewn perthynas ag un o'u hieithoedd, neu hyd yn oed y ddwy.

"A bilingual may apologise to monolinguals for not speaking their language as well as do the monolinguals. Bilinguals may feel shy and embarrassed when using one of their languages in public among monolinguals in that language. Some bilinguals strive hard to reach monolingual standards in the majority language, even to the point of avoiding opportunities to use their minority language."

[Baker a Jones, 1998: 10]

Y ffordd holistig o feddwl am ddwyieithrwydd – Mae Grosjean yn dadlau mai peth annoeth yw defnyddio unieithrwydd yn fframwaith wrth geisio deall y ffordd y mae pobl ddwyieithog yn gweithredu. Mae'n dwyn cymhariaeth o faes athletau gan ofyn a yw'n bosib neu'n deg cymharu'r neidiwr dros glwydi â'r rhedwr cyflym neu'r neidiwr uchel? Mae'r rhedwr a'r neidiwr uchel yn canolbwyntio ar un maes ac

o bosib yn rhagori yn y maes hwnnw; mae'r neidiwr dros glwydi ar y llaw arall yn cyfuno dwy sgil gwahanol gan gyrraedd safon uchel yn y ddau o bosib.

Yn debyg iawn i'r ffordd y mae'r neidiwr dros glwydi yn cyfuno dwy set o sgiliau, gan berfformio fel un athletwr cyflawn, mae Grosjean yn dweud y dylid meddwl am y siaradwr dwyieithog fel un endid ieithyddol cyflawn ac integredig. Mae hynny'n cymryd i ystyriaeth y ffaith bod siaradwyr dwyieithog yn tueddu i ddefnyddio'r ddwy iaith gyda phobl wahanol, mewn cyd-destun gwahanol ac at ddibenion gwahanol, er enghraifft, wrth siarad/ysgrifennu

Mae hynny'n cyfrannu at herio un o'r mythau mawr am ddwyieithrwydd, hynny yw, bod gan bobl ddwyieithog allu cytbwys a hyder cyfartal yn y ddwy iaith. Cymharol brin yw'r person *ambilingual* sydd â gallu a rhuglder cytbwys yn y ddwy iaith. Ar y cyfan, mae'n well gan siaradwyr dwyieithog ddefnyddio un iaith yn fwy na'r llall. Gall hynny amrywio yn dibynnu ar yr hyn y maen nhw'n ei wneud. Er enghraifft, efallai y bydd hi'n well gan rywun ddefnyddio un iaith i siarad â'r llall ar gyfer darllen ac ysgrifennu. Gall amrywio hefyd yn dibynnu ar sefyllfa neu gyd-destun. Hwyrach y bydd hi'n well gan berson dwyieithog ddefnyddio un iaith mewn un sefyllfa a'r llall mewn sefyllfa wahanol, er enghraifft, Cymraeg mewn cyd-destun anffurfiol a Saesneg mewn sefyllfa fwy ffurfiol.

Dyma beth y mae Grosjean yn ei alw yn **Egwyddor Cyfatebolrwydd (Complementarity Principle)**,

"Bilinguals usually acquire and use their languages for different purposes, in different domains of life, with different people. Different aspects of life normally require different languages."

[Grosjean, 2002]

Arwyddocâd yr Egwyddor Cyfatebolrwydd

Dadl Grosjean yw bod yr egwyddor yn taflu goleuni ar sawl ffenomenon, er enghraifft:

- i) Mae'n adlewyrchu realiti'r ffordd y mae'r person dwyieithog yn defnyddio iaith: pa ieithoedd y mae'n eu gwybod ac i ba raddau; sut y maen nhw'n cael eu defnyddio; gyda phwy a phryd; a pham fod un iaith wedi ei datblygu'n fwy neu'n llai na'r llall, er enghraifft.
- ii) Mae'n help i egluro sut y gall sgiliau newid dros gyfnod o amser: wrth i'r amgylchedd newid, mae'r angen am sgiliau iaith penodol yn newid hefyd ac wrth i hynny ddigwydd bydd lefel gallu'r person dwyieithog i ddefnyddio'r sgiliau hynny hefyd yn newid.
- iii) Dros y blynyddoedd, mae wedi cyfrannu at newid y ffordd y mae ymchwilwyr yn meddwl. Erbyn hyn mae 'na gydnabyddiaeth gynyddol bod pobl ddwyieithog yn datblygu gallu wrth gyfathrebu sy'n wahanol i'r hyn sydd gan siaradwyr uniaith. Mae hynny wedyn yn arwain at ffyrdd gwahanol o astudio dwyieithrwydd gan gymryd i ystyriaeth *repertoire* ieithyddol cyflawn y person dwyieithog.

Modd Iaith (*Language Mode*)

Ynghlwm â'i Egwyddor Cyfatebolrwydd mae Grosjean hefyd wedi datblygu cysniad Modd Iaith neu *Language Mode*. Dyma sut y mae'n diffinio hynny.

Mae pobl ddwyieithog yn eu cael eu hunain ar bwyntiau gwahanol ar gontinwmm sefyllfa, ac mae hynny'n eu gosod nhw mewn modd iaith arbennig. Ar un pen y continwmm, fe fydd y person dwyieithog yn gweithredu mewn modd hollol uniaith, hynny yw, fe fydd yn ymwneud â pherson arall sydd ond yn siarad *un* o'r un ieithoedd ag ef. Yn y sefyllfa honno, mae un iaith yn 'weithredol' a'r llall yn 'anweithredol'.

Ar ben arall y continwmm bydd pobl ddwyieithog yn cael eu gosod mewn modd dwyieithog am eu bod nhw'n cyfathrebu ag unigolion sy'n rhannu'r un ieithoedd â hwythau ac felly mae'n bosib cymysgu

ieithoedd. Yn y sefyllfa honno, mae'r ddwy iaith yn weithredol ond mae'r iaith sy'n cael ei defnyddio'n bennaf, yr iaith sylfaen, yn fwy gweithredol na'r llall.

Enghreifftiau ar ddau ben y pegwn yw'r rhain ond mae pobl ddwyieithog hefyd yn aml yn cael eu gosod ar ryw bwynt yn y canol yn dibynnu ar nifer o ffactorau – y siaradwyr eraill, y sefyllfa, natur a phwrpas y drafodaeth, er enghraifft.

Newid Côd

Yn y modd iaith dwyieithog, unwaith y bydd yr iaith sylfaen wedi ei sefydlu yna mae'n bosib i siaradwyr dwyieithog gyflwyno'r iaith arall mewn ffyrdd gwahanol – hon yw'r iaith 'wadd' yn ôl Grosjean. Un ffordd o wneud hynny yw trwy newid côd, sef symud neu droi at yr iaith arall am air neu gymal neu frawddeg.

“Monolinguals who hear bilinguals code switch may have negative attitudes to code switching, believing that it shows a deficit, or a lack of mastery of both languages. Bilinguals themselves may be defensive or apologetic about their code switching and attribute it to laziness or sloppy language habits. However, studies have shown that code switching is a valuable linguistic strategy. It does not happen at random.” [Baker and Jones, 1998: 58]

Mae Baker a Jones yn pwysleisio bod newid côd yn gyffredin mewn cymdeithasau dwyieithog ac maen nhw'n sôn am rai o'r rhesymau pam. Er enghraifft:

- i bwysleisio pwynt arbennig;
- os yw'r person yn fwy cyfarwydd â gair neu ymadrodd penodol yn yr iaith arall. Mae hynny'n digwydd yn aml am fod pobl ddwyieithog yn defnyddio iaith wahanol mewn sefyllfaoedd gwahanol. Er enghraifft, bydd oedolyn yn newid côd wrth drafod gwaith am fod y termau technegol a'r *jargon* yn yr iaith arall ac mai honno yw 'iaith gwaith' i raddau helaeth;

- mewn rhai sefyllfaoedd dwyieithog mae newid côd yn digwydd yn rheolaidd wrth drafod pynciau arbennig, er enghraifft, yn yr Unol Daleithiau mae pobl ddwyieithog Sbaeneg-Saesneg yn aml yn newid i'r Saesneg i drafod arian;
- hwyrach na fydd geiriau ac ymadroddion mewn dwy iaith yn cyd-fynd yn union a bydd y person dwyieithog yn newid i'r iaith arall i sôn am rywbeth nad oes dim byd tebyg iddo yn niwylant yr iaith sylfaen;
- mewn cymdeithas ag ieithoedd lleiafrifol/mwyafrifol, defnyddir yr iaith fwyafrifol weithiau i gadarnhau cais neu orchymyn. Mae Baker a Jones yn cyfeirio at astudiaeth wnaed yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth (Roberts, 1994) lle gwelwyd bod nyrsys yn ailadrodd cyfarwyddyd i gleifion dwyieithog yn Saesneg a bod hynny'n tanlinellu eu hawdurdod. (e.e. *'Peidiwch â chanu'r gloch Mrs. Jones – Don't ring the bell if you don't need anything'*.);
- i gyfleu cyfeillgarwch ac agosatrwydd. Er enghraifft, bydd person sy'n dysgu ail iaith yn defnyddio ambell air o'r iaith newydd mewn brawddegau wrth siarad â siaradwyr brodorol er mwyn cyfleu hynny;
- i leihau tensiwn neu gyflwyno hiwmor. *"Just as in an orchestra, different instruments may be brought in during a composition to signal a change of mood and pace, so a switch in language may indicate a need to change mood within the conversation."* [Baker a Jones, 1998: 60]

Theori Addasu

Nid peth niwtral yw defnydd iaith mewn cyd-destun dwyieithog. Mae Theori Addasu wrth Gyfathrebu (*Communication Accommodation Theory, CAT*) yn ymwneud â hynny ac yn cyffwrdd â'r meysydd canlynol sy'n cael eu trafod gan Sachdev a Giles (2004):

- a) Mae unrhyw gyfathrebu dwyieithog yn cael ei ddylanwadu arno nid yn unig gan nodweddion penodol y sefyllfa ei hun ond hefyd gan y cyd-destun cymdeithasol a hanesyddol ehangach y mae'r sefyllfa honno yn rhan ohono.

b) Nid mater syml o rannu gwybodaeth yw cyfathrebu dwyieithog. Dan y wyneb, trwy'r broses o addasu, mae hefyd yn ffordd o gyfnewid gwybodaeth bwysig am aelodaeth grŵp a hunaniaeth.

Mae CAT yn awgrymu bod unigolion yn defnyddio'r broses gyfathrebu yn rhannol er mwyn cyfleu agweddau at ei gilydd, i fesur pellter cymdeithasol ac, yn aml, i arwyddo statws cymharol yr ieithoedd a ddefnyddir.

Addasu yw'r term a ddefnyddir ar gyfer y broses yma o symud tuag at ac oddi wrth y person arall, naill ai trwy newid cywair mewn cyd-destun uniaith neu drwy newid iaith mewn cyd-destun dwyieithog. Gall hynny ddigwydd mewn tair ffordd:

cydgyfeirio (convergence) – strategaeth gan unigolion i addasu eu hymddygiad llafar trwy ddefnyddio geiriau ynghyd ag iaith y corff a hynny er mwyn ymdebygu'n fwy i'r person arall. Mae newid côd yn un ffordd o wneud hynny.

dargyfeirio (divergence) – strategaeth sy'n dwysáu gwahaniaethau ieithyddol a diwylliannol er mwyn creu pellter cymdeithasol, gosod stamp hunaniaeth neu gadarnhau statws ac awdurdod, er enghraifft.

cynnal (maintenance) – fel yr awgryma'r term, does yna ddim ymgais i glosio nag ymbellhau wrth y person arall ond yn hytrach i gynnal defnydd iaith personol.

Ar lefel gymdeithasol, mae ieithoedd a diwylliannau mwyafrifol yn aml yn disgwyl y bydd aelodau'r gymuned sydd wedi mewnfudo yn cydgyfeirio'n ieithyddol. Dywed Sachdev a Giles fod y math hwnnw o gydgyfeirio yn digwydd o un cyfeiriad ac o un ochr yn hytrach na'i fod yn symetrig ac yn ddwyochrog.

Mae'r elfen bŵer yn arwyddocaol iawn wrth drafod CAT. Y disgwyliad cyffredin yw bod pobl mewn sefyllfa israddol yn cydgyfeirio â'r rheiny sydd â statws uwch, sef cydgyfeirio ar i fyny (*upward convergence*),

ac mewn ffordd debyg iawn, bod pobl sy'n siarad ieithoedd â llai o statws yn cydgyfeirio â siaradwyr ieithoedd uwch eu statws.

Pwyntiau i'w hystyried

- 1) Profiad y myfyriwr o ddwyieithrwydd
- 2) Y defnydd a wneir o ddwy iaith mewn sefyllfaoedd gwahanol (e.e. ffurfiol/anffurfiol) ac er mwyn cyflawni pethau gwahanol (e.e. siarad/ysgrifennu)
- 3) Arwyddocâd y sylfaen wybodaeth yma o safbwynt:
 - proses ddysgu myfyrwyr;
 - anghenion defnyddwyr y gwasanaeth.
- 4) Newid côd ac Addasu – yr arwyddocâd o safbwynt profiad, anghenion a phersbectif myfyrwyr a defnyddwyr gwasanaeth

Gweler hefyd: Davies a Grist, 2006, tt. 75-78 am sylw pellach i Ddwyieithrwydd ynghyd â phwyntiau trafod ac ymateb.

Dwyieithrwydd: Y Cysylltiadau â Gwaith Cymdeithasol

Dwyieithrwydd – Iaith, Emosiwn a Therapi: Arolwg o'r Theori gan Altarriba a Morier

Mae Altarriba a Morier, dau ymchwilydd o Ogledd America, [2004: 250 – 280] yn archwilio'r defnydd o emosiwn a phrofiad mewn sefyllfaoedd therapiwtig ac yn ystyried y cysylltiad rhwng y ffordd y mae emosiynau'n cael eu disgrifio, a'r iaith a oedd yn gyfrwng i'r emosiwn yn y lle cyntaf. Wrth adolygu'r llenyddiaeth maen nhw'n dod i'r casgliad bod modd i'r person dwyieithog gyflwyno'i hunan mewn ffyrdd gwahanol, yn dibynnu ar ba iaith a ddefnyddir.

Gan gyfeirio at ymchwil yng Ngogledd America maen nhw'n cyfeirio, er enghraifft, at waith cynnar Javier *et al.* [1993: 253].

Yn yr astudiaeth honno, gofynnwyd i'r bobl ddwyieithog a oedd yn cymryd rhan, ddisgrifio am bum munud unrhyw ddigwyddiad yn eu hanes personol. Gofynnwyd iddyn nhw ddewis profiad personol a oedd yn ddiddorol neu'n ddramatig. Wedyn, gofynnwyd iddyn nhw drafod yr un profiad ond gan ddefnyddio'r iaith arall. Fel y gellid ei ddisgwyl, roedd natur ac ansawdd yr adroddiadau yn gyfoethocach wrth gael eu hadrodd yn iaith wreiddiol y profiad. Ac meddai Altarriba a Morier,



“Experiences appeared to be related more vividly when recounted in the language in which they had been experienced.”

[*op. cit.*, 253]

Mewn darn o ymchwil diweddarach gan Javier yn 1995, gwnaed cysylltiad rhwng atgofion wedi eu claddu (*repressed memory*) ac iaith. Rhoddir enghraifft gwraig ddwyieithog Sbaeneg-Saesneg a oedd ond yn gallu dwyn i gof yr atgofion a oedd wedi eu claddu ganddi trwy ddefnyddio'r iaith arall, hynny yw, *nid* iaith y profiad gwreiddiol. Felly, defnyddiwyd Saesneg i greu pellter rhwng yr unigolyn a'r boen a oedd yn gysylltiedig â'r atgofion a oedd wedi eu claddu. Rhoddodd hynny allwedd iddi fedru trafod yr hyn a oedd wedi digwydd yn adeiladol. Wedyn, ar ôl iddi roi'r digwyddiadau mewn geiriau dewisodd ddefnyddio Sbaeneg ar gyfer gweddill y therapi. Am fod Saesneg yn iaith niwtral iddi'n emosiynol “...(*it*) served as a stepping stone allowing for the release of the repressed memory into conscious awareness.” [*op. cit.* 254]

Newid Côt a Newid Iaith yn y Cyd-destun Therapiwtig

Trwy ddefnyddio sylfaen ymchwil eang, dadl Altarriba a Morier yw bod 'na fanteision amlwg i'r ffaith bod pobl ddwyieithog yn dod â dwy iaith i'r sefyllfa therapiwtig. Er enghraifft, am nad ydyn nhw'n cael eu cyfyngu i un iaith, maen nhw'n medru mynegi eu hunain yn fanylach.

“Clients have a choice as to what language to use and thereby have the ability to select the word that most clearly captures the essence of what they are trying to communicate. Bilinguals can also use their second language to serve a distancing function when discussing troubling events.”

[*op. cit.* 258]

Ceir enghraifft syml iawn yng ngwaith Bond a Lai (1986). Aeth grŵp o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Hong Kong ati i gyfworld ei gilydd gan ddefnyddio eu hiaith gyntaf a'u hail iaith. Roedd y testunau'n gymysg

– rhai yn niwtral ac eraill yn peri embaras posib. Roedd y ddau destun a allai greu embaras yn gofyn am ddisgrifiad o ddigwyddiad diweddar a thrafodaeth am agweddau at ryw yn Tsieina ac yn y gorllewin. Wrth newid côd a symud i'r ail iaith roedd y myfyrwyr yn ei chael hi'n haws siarad am y testun a oedd yn creu embaras. Yn ôl Altarriba a Morier,

“This finding seems to suggest a distancing function inherent in a bilingual’s second language.”

[*op. cit.* 258]

Rhoddodd Marcos (1976) enw ar y pellhau sy'n gallu digwydd wrth ddefnyddio'r ail iaith, sef effaith datgysylltu (detachment effect). Dyma sut mae Altarriba a Morier yn disgrifio theori Marcos:

“In his theory, he described the second language as serving an intellectual function and being devoid of emotion whereas the native language expressed the emotional content.”

[*op. cit.* 258]

Mae Altarriba a Morier hefyd yn adolygu gwaith Rozensky a Gomez (1983: 259), gwaith sy'n disgrifio'r ffordd y gall newid iaith neu *language switching* fod yn offeryn therapiwtig pwerus iawn wrth weithio gyda defnyddwyr dwyieithog.

Enghraifft 1: Gwraig Hispanaidd 57 oed â hanes o gael ei cham-drin yn rhywiol; mae ganddi nifer o anawsterau corfforol a seicolegol. Mae ei therapydd yn gofyn iddi esbonio rhai o'i hofnau am ddod i mewn i'r ysbyty. Mae'n dweud na all esbonio'r peth. Mae'r therapydd wedyn yn gofyn iddi drïo gwneud yn Sbaeneg. Y munud hwnnw mae'n dechrau crio a dweud bod ofn arni ddefnyddio Sbaeneg, ofn pe byddai'n 'agor' ei theimladau yn Sbaeneg na fyddai hi fyth yn cael ei gollwng o'r ysbyty.

Enghraifft 2: Gwraig Hispanaidd 42 oed sydd ag iselder a gofid; mae'n teimlo nad yw ei theulu'n ei chefnogi ac mae ganddi bryder mawr am gael ei gwrthod. Mae'n trio esbonio'i hanes mewn ymgais i geisio deall ei theimladau hyd at hynny ond mae'n ei chael hi'n anodd trafod ei hatgofion. Wrth iddi droi i'r Sbaeneg mae'n cofio'n gliriach am y profiad o gael ei dwyn o gartref ei mam-gu annwyl i fyw at ei mam. Yr eiliad honno mae'n dechrau deall sut deimlad oedd cael ei chymryd oddi wrth y person roedd hi'n ei charu fwyaf, rhywun roedd hi'n agos iawn ati. Mae hefyd yn cofio pa mor ddiymadferth oedd hi'n teimlo ar y pryd. Wrth ddwyn y pethau hyn i gof yn Sbaeneg mae'n gallu dechrau amgyffred emosiynau oedd wedi bod o'i gfael.

Enghraifft 3: Gwraig Hispanaidd 47 oed sy'n teimlo'n unig, heb fawr o berthynas â'i gŵr Americanaidd, a sydd newydd ddechrau perthynas â dyn Hispanaidd sydd lawer yn iau na hi. Yn ei pherthynas â'i gŵr, ac ar y cyfan gyda'i therapydd hefyd, mae'n defnyddio Saesneg. Y berthynas â'i chariad a'i phenbleth ynglŷn â beth i'w wneud oedd y cymhelliad iddi ddechrau ar y therapi. Defnyddiwyd proses newid iaith i'w gwneud hi'n haws iddi ddisgrifio ei theimladau.

"In English the anger, hurt and sadness she was describing did not match her affect; instead, she appeared detached and described it in a very intellectualized manner." [op. cit. 250]

Ond wrth ddefnyddio Sbaeneg roedd hi'n medru cyfleu emosiwn yn well drwy'r hyn roedd hi'n ei ddweud ac yn y ffordd oedd hi'n ei ddweud.

Yn ddiddorol, mae Altarriba wedi ysgrifennu am yr hyn y mae'n ei alw yn '*conceptual non-equivalence*' h.y. y gwahaniaethau cynnil rhwng geiriau wrth geisio cyfieithu geiriau o'r naill iaith i'r llall (Altarriba, 2002). Yn y gwaith hwnnw, mae hi'n trafod yr anawsterau a all godi pan fo'r defnyddiwr dwyieithog yn cyfathrebu â therapydd uniaith ac

yn defnyddio geiriau sy'n cael eu colli neu eu hystumio i ryw raddau wrth eu cyfieithu. Gall *nuance* ac union ystyr fod yn wahanol yn y ddwy iaith a gall hynny beryglu'r broses o ddeall a dehongli.

Wrth grynhoi a chloriannu'r llenyddiaeth mae Altarriba yn dod i'r casgliad canlynol

"...it appears that past experiences are often coded in the language in which they occurred and that the appropriate language can be used successfully as a retrieval cue when engaging in dialogue with a bilingual client." [op.cit. 274]

Pwyntiau i'w hystyried

- 1) Ym mha ffordd y gall yr ymchwil yma ddylanwadu ar y gwaith a wneir gyda defnyddwyr gwasanaeth dwyieithog yng Nghymru?
- 2) Pa bwyntiau sy'n arbennig o berthnasol?
- 3) Meddyliwch am arwyddocâd yr ymchwil mewn meysydd gwahanol o waith cymdeithasol.
- 4) A all y myfyriwr/asesydd ymarfer feddwl am enghreifftiau o'u gwaith eu hunain a fyddai'n cynnal neu'n herio'r ymchwil?

Yr Hunan Dwyieithog

A ydi pobl ddwyieithog ac amlieithog weithiau'n teimlo eu bod yn bobl wahanol wrth siarad eu hieithoedd gwahanol? A ydyn nhw'n cael eu canfod yn wahanol gan y bobl y maen nhw'n siarad â nhw? Ac a ydyn nhw'n ymddwyn yn wahanol?

Dyma'r cwestiynau craidd sy'n cael eu trafod mewn darn o ymchwil ar Ddwyieithrwydd ac Emosiwn a wnaed ar y we gan Dewaele a Pavlenko ac sy'n cael ei grynhoi yn Pavlenko (2006: 6).

Casglwyd y data trwy holiadur ar safle we Coleg Birkbeck rhwng

2001 a 2003. Roedd yn cynnwys 34 o gwestiynau, rhai yn gaeëdig ac eraill yn gwestiynau penagored. Cyfrannodd 1039 o siaradwyr dwyieithog ac amlieithog, a hwythau'n cynrychioli croesdoriad eang o gefndiroedd ieithyddol.

Mae Pavlenko yn cydnabod nad oedden nhw'n cynrychioli'r boblogaeth ddwyieithog ac amlieithog ehangach am eu bod nhw'n bobl ag addysg, yr hyn y mae hi'n ei alw yn '*elite bilinguals*.' Serch hynny, gwelwyd wrth ddadansoddi ymateb pellach gan 50 o bobl a oedd heb dderbyn addysg bellach ac addysg uwch nad oedd yna wahaniaethau arwyddocaol rhyngddyn nhw a'r cohort gwreiddiol.

Prif gasgliadau'r ymchwil – A ydi pobl ddwyieithog ac amlieithog yn teimlo eu bod nhw'n bobl wahanol wrth newid iaith? Dyna'r prif gwestiwn ymchwil oedd dan sylw. Dywed Pavlenko,

"Whereas other questions in the web questionnaire elicited matter of fact answers, the questions about different selves elicited many emotional responses... This enthusiasm suggests that the question about different selves, often eschewed by the academic establishment, is nevertheless relevant to the lives of many individuals who speak more than one language."

[*op.cit.* 9]

Rhoddodd 675 (65%) ateb cadarnhaol i'r cwestiwn; cafwyd ateb negyddol gan 266 (26%); ymateb amwys gan 64 (6%) ac ni chafwyd ateb gan 34 (3%).

Ar sail y dystiolaeth gan y garfan a roddodd ymateb cadarnhaol, dyma'r gwahaniaethau craidd y mae Pavlenko yn eu hadnabod.

Gwahaniaethau Ieithyddol a Diwylliannol

Er enghraifft:

"Yes (I feel different) because the use of a certain language demands that you act according to the behavioural norms of the corresponding culture."

[Anastasia, 25: Groeg – Saesneg – Ffrangeg – Eidaleg – Tsieinëeg]

"Yes, it is difficult to explain but it's like you conform yourself to

the way that native speakers talk and express themselves which is not necessarily the same as yours. For example, the way the Greek people speak is very lively and very expressive. If I were to speak in the same way in English (or even German and French) people would misunderstand me and misinterpret my intentions.” [Anna, 24: Groeg – Almaeneg – Saesneg – Ffrangeg]

Ond mae'n bwysig ystyried mai profiadau yw'r rhain i raddau helaeth sy'n cael eu mynegi gan bobl sydd wedi dysgu eu hieithoedd mewn sefyllfaoedd penodol ac sy'n eu defnyddio mewn sefyllfaoedd uniaith ar y cyfan. Mae Pavlenko'n awgrymu bod y gwahaniaethau ieithyddol a diwylliannol hynny yn llai o bosib i bobl sy'n byw mewn amgylchedd dwyieithog neu amlieithog ac sy'n defnyddio eu hieithoedd yn gyfochrog â'i gilydd bob dydd (op. cit. 18).

Y gwahaniaeth rhwng iaith 'gyntaf' ac 'ail' iaith

Soniodd rhai pobl fod 'na wahaniaeth yn y ffordd y maen nhw'n teimlo yn dibynnu ar ba iaith y maen nhw'n ei defnyddio, ai'r iaith 'gyntaf' neu iaith a ddysgwyd yn ddiweddarach. Roedd yna deimlad bod yr iaith gyntaf yn 'real' ac yn 'naturiol', a mynegiant yn yr ail iaith yn llai dilys a chyson â'r hunan.

“I don't feel quite real in German sometimes – and formerly in French and Russian. I feel I'm acting a part.” [George, 66: Saesneg - Almaeneg -Ffrangeg -Rwsieg]

“I feel less myself when speaking any language other than German ...I feel more like I am acting a persona which can be good or bad.” [Stefanie, 31: Almaeneg –Saesneg –Sbaeneg]

“Yes and I think it is natural because when you are using your first language you are yourself with all of your acquired habits but using another language [you] need to have a mask, or persona, and it may give you a sense of being another person.” [Karim, 35: Farsi – Saesneg – Almaeneg]

“Rwy'n teimlo'n fwy cartrefol yn siarad fy mam iaith. Mae fel bod

gartref gyda'r holl annibendod cyfarwydd, cyfforddus o'ch cwmpas. Mae siarad ail iaith fel bod yn chi'ch hun ond yng nghartref rhywun arall." [Ellen, 47: Cymraeg –Saesneg]

"Absolutely. I feel I can hide my emotions and myself a lot better in English. In Spanish I feel a lot more 'naked.' "[Dolores, 31: Sbaeneg –Saesneg – Almaeneg –Ffrangeg]
[*op. cit.* tt. 18 – 20]

Casgliad - Ar sail yr astudiaeth yma a'r arolwg a wnaed ganddi o'r sylfaen ymchwil ehangach, daw Pavlenko i'r casgliad canlynol

"Reflections of bilingual writers and explorations by linguists and psychoanalysts show that languages may create different, and sometimes incommensurable, worlds for their speakers who feel that their selves change with the shift in language."
[*op. cit.* 27]

Ac nid rhywbeth sydd ond yn perthyn i bobl sydd wedi caffael eu hieithoedd yn hwyrach yw'r teimlad yma o shifft a gwahaniaeth. Mae'n ymddangos ei fod yn rhan o brofiad pobl ddwyieithog ac amlieithog yn fwy cyffredinol.

Iaith a Chymdeithas

Cyflwyniad – Mae Crystal yn dadlau bod pobl a fagwyd mewn cymdeithas orllewinol yn aml yn credu mai unieithrwydd yw'r norm.

"... (that) the monolingualism that forms a routine part of their existence is the normal way of life for all but a few 'special' people. They are wrong. Multilingualism is the natural way of life for hundreds of millions all over the world."

[Crystal, 1997: 362]

Gydag oddeutu 6,000 o ieithoedd yn cyd-fyw mewn llai na 200 o wledydd mae'n dilyn yn anochel, meddai Crystal, fod cryn dipyn o gysylltiad rhwng ieithoedd â'i gilydd. Canlyniad hynny ar raddfa fyd-eang yw amlieithrwydd ac yn fwy cyffredin fyth, dwyieithrwydd. Ceir bras amcan, er enghraifft, fod tua 60 – 65% o boblogaeth y byd yn siarad o leiaf ddwy iaith yn eu bywydau pob dydd.

Mae'n hawdd deall, meddai Crystal, pam fod pobl yn credu mai peth anghyffredin yw dwyieithrwydd ac amlieithrwydd. Polisiâu llywodraeth sydd i gyfrif i raddau helaeth. Mae llai na chwarter o genhedloedd y byd yn rhoi cydnabyddiaeth i ddwy iaith a dim ond chwe chenedl sy'n cydnabod chwech neu fwy o ieithoedd.

Ond, wrth edrych ar genhedloedd fesul un – gan hoelio sylw ar brofiad siaradwyr yn hytrach na pholisiâu iaith swyddogol yn unig – gwelir patrwm gwahanol iawn.



“It has been argued, in fact, that there is no such thing as a totally monolingual country. Even in countries that have a single language used by the majority of the population (e.g. Britain, USA, France, Germany, Japan) there exist sizeable groups that use other languages. In the USA, around 10% of the population regularly speak a language other than English. In Britain, over 100 minority languages are in routine use.”

[*op.cit.*, 362]

Diglossia

Yn aml iawn mewn cymunedau dwyieithog ac amlieithog mae gan bob iaith ei diben a'i phwrpas ei hun. Dyma'r sefyllfa a elwir yn 'diglossia'.

Mae Romaine yn cyfeirio at enghraifft gwledydd Arabeg eu hiaith fel Yr Aifft, lle defnyddir fersiwn leol o Arabeg yn y cartref tra mai Arabeg fodern, safonol sy'n cael ei chydnabod yn iaith swyddogol.

“The standard language is used for 'high' functions such as giving a lecture, reading, writing, or broadcasting, while the home variety is reserved for 'low' functions such as interacting with friends at home.”

[Romaine: 2000, 46]

Ferguson (1959) oedd y cyntaf i drafod cysyniad 'diglossia' er mwyn gwahaniaethu rhwng dwy ffurf wahanol ar yr un iaith a ddefnyddid at ddibenion cymdeithasol gwahanol iawn, fel yn achos yr Arabeg. Aeth Fishman (1972) ati wedyn i ymestyn y cysyniad er mwyn ystyried y sefyllfa lle mae dwy iaith yn byw yn gyfochrog â'i gilydd mewn cyd-destun dwyieithog, fel yn achos y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru. Mewn sefyllfa o'r fath, dangosodd Fishman fod y ddwy iaith yn cael eu defnyddio'n aml mewn sefyllfaoedd gwahanol, gyda'r iaith 'isel' neu leiafrifol yn fwy tebygol o gael ei defnyddio mewn sefyllfaoedd anffurfiol, personol a'r iaith 'uchel' neu fwyafrifol yn cael ei defnyddio'n fwy cyffredin mewn sefyllfaoedd ffurfiol a swyddogol.

Mae 'dwyieithrwydd' yn cyfeirio at ddefnydd o fwy nag un iaith ar lefel yr unigolyn, ac mae 'diglossia' wedyn yn cyfeirio at ddefnydd o

fwy nag un iaith ar lefel gymdeithasol. Mae Fishman yn archwilio'r berthynas hon rhwng dwyieithrwydd a diglossia yn y ffordd yma:

Diglossia		
Dwyieithrwydd yr Unigolyn	1. Diglossia a Dwyieithrwydd	3. Dwyieithrwydd heb Diglossia
	2. Diglossia heb Ddwyieithrwydd	4. Dim Dwyieithrwydd na Diglossia

[o Baker a Jones, 1998, 118]

Sefyllfa 1 – Yn y math yma o gymdeithas, mae'r rhan fwyaf o bobl yn medru defnyddio'r ddwy iaith, yr un uchel a'r un isel. Fe'u defnyddir at ddibenion gwahanol. Mae Fishman yn cyfeirio at enghraifft gwlad Paraguay ble mae bron iawn pawb yn medru siarad Guaraní a Sbaeneg. Guaraní yw'r iaith isel a Sbaeneg yw'r iaith uchel.

Sefyllfa 2 – Yn y math yma o gymdeithas, mae 'na ddwy iaith, gydag un grŵp o unigolion yn siarad y naill a grŵp arall o drigolion yn siarad y llall. Yn aml iawn, y grŵp sydd â phŵer fydd yn siarad y math uchel, a bydd y grŵp arall sy'n fwy niferus, ond â llai o bŵer, ond yn medru'r iaith isel. Yn draddodiadol, mae gwledydd a gafodd eu gwladychu yn cynnig enghraifft dda, gyda Saesneg neu Ffrangeg yn cael ei siarad gan yr *elite* a'r iaith gynhenid gan weddill y boblogaeth.

Sefyllfa 3 – Yn y math yma o gymdeithas mae'r rhan fwyaf o bobl yn ddwyieithog ac ni fydd y naill iaith na'r llall yn cael ei chyfyngu i feysydd a dibenion penodol. Yn ôl Fishman mae cymdeithasau o'r fath yn arbennig o ansefydlog. Y disgwyliad yw bod un iaith o bosib ar gynydd ac yn debygol o ennill mwy o bŵer gydag amser tra bod y llall ar drai.

Sefyllfa 4 – Yn y math yma o gymdeithas, does 'na fawr o ieithoedd lleiafrifol cynhenid, os o gwbl. Unieithrwydd yw'r norm, fel ym Mhortiwgal, er enghraifft. Ceir enghreifftiau eraill mewn cymunedau a oedd unwaith yn gymysg iawn yn ieithyddol ond lle mae polisi llywodraeth wedi golygu bod ieithoedd wedi diflannu gydag amser, er

enghraifft, yng Nghiwba a Gwladwriaeth Dominica. Yno, diddymwyd yr ieithoedd cynhenid a does fawr o fewnfudo i gyflwyno ieithoedd newydd.

Beirniadaeth – Mae diglossia yn cynnig fframwaith cysyniadol defnyddiol i ddeall y berthynas rhwng defnydd iaith gan yr unigolyn a'r ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio arni. Mae'n rhoi allwedd, er enghraifft, i egluro'r ffordd y cafodd y Gymraeg yn hanesyddol ei gwahardd o bob maes swyddogol yng Nghymru o'r 16G hyd ddiwedd yr 20G, gyda'r Gymraeg yn iaith 'L' – isel, a'r Saesneg yn iaith 'H' – uchel.

Ond fel y dywed Baker a Jones,

“Some contemporary language minorities do not want a diglossic situation. For a minority language to survive in the modern world, they argue, it must be equipped to take over the more prestigious functions traditionally occupied by the majority language.”

[Baker a Jones, 1998: 121]

Ceir enghraifft dda o hynny yn y newidiadau a welir mewn deddfwriaeth a pholisi yn y Gymru gyfoes, y ffordd y mae'r Gymraeg yn ymestyn i sefyllfaoedd newydd mwy cyhoeddus a ffurfiol, a'r pwyslais cynyddol ar ddwyieithrwydd yr unigolyn mewn cymdeithas sy'n fwyfwy dwyieithog.

Iaith – Cynnal, Symud a Darfod

Felly, mae dwyieithrwydd ac amlieithrwydd i'w gweld mewn ffyrdd gwahanol iawn ledled y byd.

Mewn rhai manau, bydd mwyafrif y boblogaeth yn ddwyieithog. Dyna'r sefyllfa gyda'r defnydd eang o'r Sbaeneg ac iaith Guaraní ym Mharaguay, er enghraifft. Fel y dywedwyd eisoes, Sbaeneg yw'r iaith swyddogol ond Guaraní yw'r 'iaith genedlaethol'. Ar ben arall y pegwn, hwyrach mai ond llond dwrn o'r boblogaeth fydd yn ddwyieithog, fel yn achos siaradwyr Gaeleg yn yr Alban.

Weithiau bydd dwyieithrwydd yn ganlyniad i'r ffaith bod ieithoedd wedi cydfyw â'i gilydd ers talwm iawn, fel yng ngwlad Belg. Neu, gall

fod yn ganlyniad i newidiadau llawer mwy diweddar, fel gyda nifer o'r grwpiau *Gastarbeiter* yng Ngogledd Orllewin Ewrop, a ffurfiwyd oherwydd mudo economaidd. Nodwedd bwysig yw'r ffaith fod cynifer o sefyllfaoedd yn rhai symudol a bregus. Mae Crystal yn dadlau mai prin yw'r sefyllfaoedd dwyieithog ac amlieithog hynny sy'n sefydlog a lle 'does fawr o dyndra neu anghydweld cyhoeddus am bolisi llywodraeth. Gan amlaf, mae'r cydbwysedd rhwng un iaith a'r llall yn newid, naill ai o'i ran ei hun neu oherwydd polisi llywodraeth.

Mewn rhai manau, meddai Crystal, mae dwyieithrwydd ar gynydd, fel yn Sweden yn y cyfnod ers yr ail Ryfel Byd. Mewn llefydd eraill mae ar drai, wrth i bobl a fewnfudodd ddwy neu dair cenedlaeth yn ôl ddod yn fwyfwy uniaith, fel sy'n digwydd yn yr Unol Daleithiau.

Felly, rhaid gwahaniaethu rhwng:

- a) y sefyllfaoedd hynny lle mae ieithoedd yn dal eu tir er eu bod nhw'n byw wrth ochr cymdogion pwerus – cynnal iaith (language maintenance) yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio sefyllfa o'r fath.
- b) y sefyllfaoedd hynny lle mae ieithoedd wedi ildio a'u siaradwyr yn cael eu cymhathu ac yn derbyn y diwylliant mwyafrifol – symudiad iaith (language shift) yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio sefyllfa o'r fath.
- c) y sefyllfaoedd hynny lle mae ieithoedd wedi methu â goroesi, er enghraifft, y Gernyweg – darfodiad iaith (language death) yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio sefyllfa o'r fath.

Mwy am symudiad iaith

Mae May yn trafod y cysyniad o symudiad trwy ddweud,

“Language decline and language death always occur in bilingual or multilingual contexts, in which a ‘majority’ language – that is, a language with greater political power, privilege and social prestige – comes to replace the range of functions of a ‘minority’ language. The inevitable result of this process is that speakers of the minority language ‘shift’ over time to speaking the majority language.”

[May, 2001: 1]

Mae'n cyfeirio at dri cham cyffredinol yn y broses o symudiad iaith:

Cam 1 – pwysau cynyddol ar siaradwyr ieithoedd lleiafrifol i siarad yr iaith fwyafrifol, yn arbennig mewn sefyllfaoedd ffurfiol. Yn aml, caiff y cam hwn ei hwyluso trwy gyflwyno addysg yn yr iaith fwyafrifol.

Cam 2 – mae cyfnod o ddwyieithrwydd yn nodweddu'r cyfnod hwn, gyda'r ddwy iaith yn parhau i gydfyw. Ond yn ystod y cyfnod hwnnw yn aml gwelir gostyngiad yn nifer siaradwyr yr iaith leiafrifol, yn arbennig ymhlith pobl ifanc. Defnyddir yr iaith leiafrifol mewn llai a llai o sefyllfaoedd ac mae lefel hyder yn disgyn.

Cam 3 – gall y cam hwnnw ymestyn dros ddwy neu dair cenhedlaeth a gwelir bod yr iaith fwyafrifol yn cymryd lle'r iaith leiafrifol.

Dadl May yw bod symudiad a darfodiad iaith wedi digwydd erioed. Mae ieithoedd wedi codi a disgyn trwy gydol hanes.

“But what is ... different as we enter the twenty-first century is the unprecedented scale of this process of decline and loss – some commentators have even described it as a form of ‘linguistic genocide’.”
[op.cit 2]

Mae Michael Krauss (1992, 1995) wedi amcangyfrif, er enghraifft, yn ogystal â'r 50% o ieithoedd a all farw yn ystod y ganrif nesaf, fod 40% o ieithoedd eraill 'dan fygythiad' neu 'mewn peryg'. Felly, os yw Krauss yn gywir, dim ond 600 o ieithoedd (10%) a wnaiff oroesi yn y tymor hir.

Colli iaith: Cwestiwn o Fywydeg neu Bŵer?

Dyma'r cwestiwn y mae May yn ei godi wrth ystyried y berthynas sy'n cael ei thrafod bellach rhwng y bygythiad i ieithoedd a'r bygythiad sy'n wynebu rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion. Mae Crawford yn crynhoi'r drafodaeth trwy ddweud bod y naill a'r llall yn troi'n ysglyfaeth i reibwyr mwy pwerus neu gystadleuwyr mwy llwyddiannus. Maen nhw'n cael eu bygwth gan ddiwylliannau modern a thechnoleg newydd, yn ogystal ag ymosodiad ar diroedd a bywoliaeth, a thwf y farchnad a gwerthoedd y gorllewin. [Crawford, 1994: 5]

Mae Nettle a Romaine yn trafod y cysylltiad uniongyrchol rhwng bioamrywiaeth ac amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol yn eu llyfr *Vanishing Voices: The Extinction of the World's Languages*.

“By directing our efforts to saving the components of the global village – our peoples, languages and cultures – we aim to preserve ourselves as a species with all its rich variation ... the solution to the environmental crisis involves preserving local ecosystems through the empowerment of indigenous peoples who live there. Preserving and creating small-scale community habitats in turn support languages and cultures.”

[Nettle a Romaine, 2000: 24]

Ond mae May yn rhybuddio rhag defnyddio trosiadau amgylcheddol am sawl rheswm, er enghraifft:

Yn gyntaf, am eu bod nhw'n atgyfnerthu'r gred bod colli iaith yn beth anochel, yr hyn y mae May yn ei alw yn Ddarwinaeth sosio-ieithyddol.

“Thus one could view the loss or death of a language as simply a failure on its part, or its speakers, to compete adequately in the modern world...”

[*op. cit.* 3)

Yn ail, nid yw trosiadau ecolegol yn medru cymryd i ystyriaeth yr holl bethau sy'n ymwneud â phŵer cymdeithasol a gwleidyddol sy'n allweddol wrth ddeall prosesau colli iaith. Yn ei hanfod, medd May, nid mater ieithyddol yw colli iaith.

“It has much more to do with power, prejudice, (unequal) competition and, in many cases, overt discrimination and subordination.”

[*op. cit.* .4)

Mae'n dyfynnu Noam Chomsky a ddywedodd, *“Questions of language are basically questions of power.”* [Chomsky, 1979: 191).

A dadl May yw bod y mwyafrif o ieithoedd dan fygythiad yn cael eu siarad gan bobl ddifreintiedig,

“...socially and politically marginalised and/or subordinated national-minority and ethnic groups.”

[*op. cit.* p.4].

Anaml y bydd ieithoedd yn darfod mewn cymdeithasau sydd â phŵer cymdeithasol ac economaidd.

Cynllunio iaith

Mewn ymgais i ymateb i'r prosesau sy'n effeithio ar ieithoedd lleiafrifol ledled y byd, ceir sawl enghraifft erbyn hyn o'r hyn y mae Fishman yn ei alw yn RLS (Reversing Language Shift) neu, proses o gynllunio iaith sy'n seiliedig yn aml iawn ar egwyddor cyfreithloni a normaleiddio.

Enghraifft Ewropeaidd – Mae May yn cyfeirio at enghraifft Catalwnia a'r egwyddor o normaleiddio ieithyddol a ddisgrifiwyd gan Gynghrair Diwylliant y Gatalaneg (1975-77) fel hyn,

“a process during which a language gradually recovers the formal functions it [has] lost and at the same time works its way into those social sectors, within its own territory, where it was not spoken before.”

[*op. cit.* 246]

Dywed May fod gan y rhaglen yma i gynllunio statws iaith yng Nghatalwnia dri nod sylfaenol:

- a. i sicrhau fod y Gatalaneg yn cael ei hyrwyddo a'i sefydliadolli ymhob maes cyhoeddus a phreifat o bwys;
- b. i fynd i'r afael ag anllythrennedd yn y Gatalaneg ac unrhyw deimlad o israddoldeb ynglŷn â'r iaith, y ddau beth yn waddod o gyfnod Franco;
- c. i sicrhau ymrwymiad i'r Gatalaneg gan siaradwyr Sbaeneg iaith – gyntaf a gwrthweithio unrhyw elyniaeth tuag at y Gatalaneg fel 'bygythiad' i'r Sbaeneg.

[*op. cit.* 246-47]

Pwyntiau i'w hystyried

- 1) Unieithrwydd vs. Dwyieithrwydd – y cyferbyniad rhwng ffaith a chanfyddiad ledled y byd a'r pwyntiau perthnasol o safbwynt gwaith cymdeithasol yng Nghymru.
- 2) Diglossia fel fframwaith i ystyried cwestiynau am statws a defnydd y Gymraeg.
- 3) Bio-amrywiaeth ac amrywiaeth ieithyddol – yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol.
- 4) Profiad y Gatalaneg: adlais o brofiad y Gymraeg yng Nghymru?

Gweler hefyd: Davies a Grist, 2006, tt. 54 – 59 (a'r Darlleniadau perthnasol) am ymdriniaeth bellach ag Iaith a Phŵer ynghyd â phwyntiau trafod ac ymateb.

Cyfeiriadau a Ffynonellau

- Altarriba, J., 2002, Does cariño equal liking? A Theoretical Approach to Conceptual Non-equivalence between Languages, *International Journal of Bilingualism*
- Altarriba, J. a Morier, R. G., 2004, Bilingualism: Language, Emotion and Mental Health, yn T. K. Bhatia a W. C. Ritchie (goln), *The Handbook of Bilingualism*, Rhydychen: Blackwell
- Baker, C. a Jones. S.P., 1998, *Encyclopaedia of Bilingualism and Bilingual Education*, Clevedon: Multilingual Matters
- Bond, M.H. a Lai, T.M. 1986, Embarrassment and Code-switching into a Second Language, *Journal of Social Psychology*, 126, 179-186
- Chomsky, N., 1979, *Language and Responsibility*, Llundain: Harvester
- Crawford, J., 1994, Endangered Native American Languages: What is to be done and why? *Journal of Navajo Education*, 11, 3, 3-11
- Crystal, D., 1997, *The Cambridge Encyclopaedia of Language*, Caergrawnt: Cambridge University Press
- Davies, E. a Grist, C., 2006, *Geiriau Gofalus – Datblygu Ymarfer Iaith Sensitif mewn Gwaith Cymdeithasol*, CD Rom i Aseswyr Ymarfer, Castell Newydd Emlyn: Iaith Cyf.
- Davies, E., 1994, *They All Speak English Anyway*, CCETSW/TOPPS Cymru
- Dewaele. J.M. a Pavlenko, A., 2001-2003, *Holiadur ar y We Bilingualism and Emotions*, Llundain: Prifysgol Llundain
- Edwards, J., 1994, *Multilingualism*, Llundain: Penguin
- Ferguson, C., 1959, Diglossia, *Word*, 15, 325 – 340
- Fishman, J.A., 1972, *The Sociology of Language*, Rowley, MA: Newbury House
- Grosjean, F., 1985, The Bilingual as a Competent but Specific Speaker-Hearer, *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 6(6), 467-477

Grosjean, F., 1994, Individual Bilingualism, yn R.E. Asher a J.M. Simpson (goln), *The Encyclopaedia of Language and Linguistics, Volume 3*, Rhydychen: Pergamon

Grosjean, F., 2002 – <http://www.bilingualfamiliesconnect.com>

Javier, R. A., Barroso, F. a Munoz, M.A., 1993, Autobiographical Memory in Bilinguals, *Journal of Psycholinguistic Research*, 22, 319-338

Javier, 1995, R.A., 1995, Vicissitudes of Autobiographical Memories in a Bilingual Analysis, *Psychoanalytic Psychology*, 12, 429-438

Krauss, M., 1992, The World's Languages in Crisis, *Language*, 68 4-10

Krauss, M., 1995, Language Loss in Alaska, the United States and the World, *Alaska Humanities Forum* 6 (1), 2-5

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007

Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol – Strategaeth ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y deng mlynedd nesaf

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007

Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004

Codi safonau: Y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003

Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwythieithog

Marcos, L.R., 1976, Linguistic Dimensions in the Bilingual Patient, *American Journal of Psychoanalysis*, 36, 347-354

May, S., 2001, *Language and Minority Rights: Ethnicity, Nationalism and the Politics of Language*, Harlow: Longman

Nettle, D. a Romaine, S., 2000, *Vanishing Voices: The Extinction of the World's Languages*, Rhydychen: Oxford University Press

Pavlenko, A., 2006, *Bilingual Selves*, yn A. Pavlenko (gol), *Bilingual Minds: Emotional Experience, Expression and Representation*, Clevedon: Multilingual Matters

Roberts, G. W., Nurse/Patient Communication within a Bilingual Health Care Setting, *British Journal of Nursing*, 3 (2), 60 – 67

Romaine, S., 2000, *Language in Society: An Introduction to Sociolinguistics*, Rhydychen: Oxford University Press

Rozenky, R. H. a Gomez, M.Y., 1983, Language Switching in Psychotherapy with Bilinguals: Two Problems, Two Models and Case Examples, *Psychotherapy*, 20, 152-260

Sachdev, I. a Giles, H., 2004, Bilingual Accommodation, yn T. K. Bhatia a W. C. Ritchie (goln), *The Handbook of Bilingualism*, Rhydychen: Blackwell

Sachdev, I. a Bourhis, R.Y., 2001, Multilingual Communication, yn W. P. Robinson a H. Giles (goln), *The New Handbook of Language and Social Psychology*, 407-428, Chichester: Wiley

Atodiad

Tystiolaeth o sensitifrwydd ac ymarfer da mewn perthynas â'r iaith Gymraeg o fewn y Radd/ Radd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol

Mae'r Radd mewn Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru wedi ei gymeradwyo gan Gyngor Gofal Cymru. Disgwylir i bob rhaglen Gwaith Cymdeithasol gwrdd â'r Gofynion a'r Rheolau. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys disgwyliadau pendant i sicrhau bod gan fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol y wybodaeth a'r sgiliau i "adnabod, deall ac ymateb i faterion sy'n benodol neu'n nodweddiadol o anghenion Cymru". Mae cyfarwyddyd y Cyngor Gofal sydd yn ymwneud â'r gofyniad hwn yn pwysleisio bod 'angen i'r holl fyfyrwyr ddysgu ac ymateb i'r her o weithio mewn cymdeithas ddwyieithog'.

Mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn byw eu bywydau bob dydd drwy gyfrwng y Gymraeg, heb feddwl yn benodol am yr iaith wrth wneud hynny – am y rheswm syml mai dyma eu ffurf cyfathrebu arferol, naturiol.

Mae'n bwysig hefyd cofio **nad yw** pawb sy'n siarad Cymraeg:

- yn arbenigwyr ar yr iaith Gymraeg;
- yn gwybod hanes yr iaith Gymraeg;
- yn genedlaetholwyr neu'n eithafwyr;
- yn arbenigwyr ar gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, ac fel arall;
- yn arbenigwyr ar ieithoedd yn gyffredinol;
- gyda theimladau cryf am yr iaith;
- gyda phwynt gwleidyddol i'w brofi wrth ddewis siarad yr iaith.

Cynigir y grid isod fel rhyw fath o arweiniad bras i fyfyrwyr ac athrawon ymarfer o'r math o weithgareddau a lefel dealltwriaeth a ddisgwylir ar gyfer pob lefel o'r cwrs gradd.

Gellid defnyddio yr un templed ar gyfer trin a thrafod materion gwrth wahaniaethol a gwrth ormesol eraill, megis anabled, ethnigrwydd, oedran ac ati.

Am fwy o wybodaeth a darllen cyfeirir chi at y CD Rom '**Geiriau Gofalus**', adnodd ar gyfer datblygu ymarfer iaith sensitif mewn Gwaith Cymdeithasol, sydd wedi'i ddatblygu o'r cyhoeddiad gwreiddiol '**They All Speak English Anyway**' ac '**laith Pawb**'.

Cysyniadau & Ystyriaethau

Lefel 1

Adnabod ac Adrodd

- Adrodd ar ystadegau sydd ar gael mewn perthynas â siaradwyr Cymraeg
 - Pwy ydyn nhw?
 - Proffeil oedran?
 - Demograffi/lle mae nhw'n byw?
- Edrych ar sut mae'r uchod yn effeithio ar ddarpariaeth yr asiantaeth
- Edrych ar lefelau gallu a hyder defnyddwyr gwasanaeth/cynhalwyr yn nhermau
 - i) siarad yr iaith
 - ii) gofyn am eu gwasanaeth yn eu dewis iaith
- Adrodd ar Bolisi Iaith Gymraeg/Cynllun Iaith Gymraeg asiantaeth y lleoliad (Deddf yr Iaith Gymraeg 1993)
- Ystyriaeth i 'hawliau' ieithyddol defnyddwyr gwasanaeth/cynhalwyr
- Ystyriaeth o ddewis y defnyddwyr gwasanaeth/cynhalwyr mewn perthynas â iaith

Cysyniadau & Ystyriaethau

Lefel 2

(Lefel 1 +)

Dadansoddi

- Cyfrifoldebau'r asiantaeth
- Y cyd-destun cyfreithiol a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Dadansoddiad o iaith a phŵer
- Dadansoddiad o iaith a dewis
- Dadansoddiad o gymhlethdod cynnal a pharchu hawliau i ddarpariaeth gwasanaeth mewn dewis iaith o fewn cyd-destun polisïau, staffio a'r adnoddau sydd ar gael o fewn yr asiantaeth
- Dadansoddiad o iaith yn nhermau hunaniaeth y defnyddiwr gwasanaeth
- Awdit o sgiliau ieithyddol o fewn yr asiantaeth
- Ymarfer gwrth-wahaniaethol a gwrth-orthrymol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg

Lefel 3

(Lefelau 1 & 2 +)

Gwerthusiad beirniadol

- Datblygu/herio/gwella polisïau ac ymarfer
- Dadansoddiad beirniadol o effaith ac oblygiadau peidio cynnig/darparu gwasanaeth yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaeth/cynhaliwr
- Dadansoddiad beirniadol o amrediad o wahanol agweddau – yr asiantaeth, y gweithiwr proffesiynol a lefel bersonol i'r gweithiwr proffesiynol
- Dadansoddiad beirniadol o ymchwil yn cynnwys ymchwil o fewn proffesiynau eraill e.e. nyrso